

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch (FEIA)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw rhoi gwybodaeth gytbwys i ategu'r broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo ffyrdd gwell o weithio'n unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a'r pedwar paramedr o drafodaeth am degwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor yn 2013).

Cwblhawyd gan: Sheree Davies **Rôl:** Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan **Dyddiad:** 05/04/2019

Cadarnhaf fod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno i gynnwys yr asesiad hwn

Ydyw/ Nac ydyw

Pan gwblhewch yr Asesiad hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i:

impact.assessments@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad y polisi / cynnig a asesir. Amlinellwch ddiben y polisi.

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd, yn bwriadu defnyddio'r pwerau a roddwyd o dan Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 i sefydlu **Partneriaeth Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton**.

Disgrifia'r term 'ffederasiwn' gytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth ffurfiol gyda llywodraethu ar y cyd dan un corff llywodraethu. Caiff y cyrff llywodraethu presennol eu diddymu a'u disodli gan gorff llywodraethu sengl newydd gyda goruchwyliaeth strategol o'r ddwy ysgol.

Mae'r ddwy ysgol wedi gweithio ar sail gydweithredol ers mis Medi 2016 ac wedi rhannu un Pennaeth Gweithredol yn ystod y cyfnod hwn. Ymgynghorodd y cyrff llywodraethu â'r ALI ac mae pob parti yn cefnogi'r cynnig.

Nod y Ffederasiwn yw i'r ddwy ysgol weithio mewn partneriaeth i:

- ddatblygu arfer ardderchog a rennir sy'n gwarantu profiadau rhagorol a mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a staff, a
- datblygu'r nodau cyffredin a dulliau myfyriol o addysgu a dysgu a fydd yn sicrhau bod y ddwy gymuned yn elwa ar addysg o ansawdd.

Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol sylweddol a gwell safonau i'r ddwy gymuned ysgol.

2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi'n cynnwys y rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt

Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) yn amlinellu gofyniad statudol i geisio barn rhanddeiliaid ar gynigion ffedereiddio. Yn ystod y broses ymgynghori, bydd yr awdurdod lleol yn cynnwys y rhanddeiliaid dynodedig canlynol:

- Staff y ddwy ysgol;
- Rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol;
- Y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol (a weithredir trwy'r ddau Gyngor Ysgol);
- Undebau staff addysgu a chymorth sy'n cynrychioli athrawon a staff yn y ddwy ysgol;
- Aelodau Ward Lleol ar gyfer y ddwy ysgol;
- Penaethiaid yr holl ysgolion yn ardaloedd clwstwr Llanwern a Lliswerry;
- Gwasanaeth Cyflawniad Addysg De Ddwyrain Cymru;
- Estyn.

Yn dilyn y cyfnod o ymgynghori ffurfiol, paratwir Adroddiad Ymgynghori, a bydd yn cael ei ddefnyddio gan y cyrff llywodraethu i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Aelod Cabinet Addysg a Sgiliau. Caiff y FEIA hwn ei ddiweddarau ar y cam penderfynu hwn hefyd.

3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd o wasanaethau ayb. Nodwch yr holl dystiolaeth rydych yn ei hystyried yn berthnasol.

Paratowyd dogfen ymgynghori a bydd yn cael ei dosbarthu i randdeiliaid, a bydd y cyrff llywodraethu yn sicrhau y gwneir trefniadau i bobl gael gwybod mwy am y cynnig. Gellir cyflwyno sylwadau a chwestiynau trwy ddefnyddio ffurflen ymateb, sydd i'w gweld yn y ddogfen ymgynghori y gellir ei lawrlwytho o wefannau'r ysgol a'r Cyngor. Gwneir trefniadau hefyd i ymgysylltu'n uniongyrchol â disgyblion y ddwy ysgol i gael eu barn.




4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			<p>Rhowch fwy o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/ aflonyddu/ erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Naill na'r llall	
Oed	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon. Bydd yr ystod oedran o ddisgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol gynradd yn aros yr un fath ac nid oes newid i gapasiti'r naill ysgol na'r llall.
Anabledd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Ailbennu rhywedd/ trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Crefydd neu Gred neu ddi-gred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Hunaniaeth Rhyw/ Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon.
Yr Iaith Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid yw'r cynnig hwn yn ffafrio nac yn gwahaniaethu yn erbyn y nodwedd warchoddedig hon. Bydd yr ysgolion yn

Nodwedd Warchoddedig	Effaith:			<p>Rhowch fwy o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu/ aflonyddu/ erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Naill na'r llall	
				parhau i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymraeg.

5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwyso angen tymor byr gydag anghenion tymor hir</p>	<p>Bydd y cynnig yn cydbwysu anghenion tymor byr gydag anghenion tymor hir y ddwy ysgol gynradd sy'n gweithio gyda'i gilydd drwy un strwythur corff llywodraethu, a fydd yn galluogi'r ysgolion i godi safonau a chynnal darpariaeth trwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd, a chyfleusterau ac arfer gorau. Bydd y cynnig hefyd yn gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau disgyblion, datblygiad proffesiynol staff, a datblygu rheolwyr canol dros y tymor hir.</p> <p>Dylid ystyried ffederasiwn fel ymrwymiad tymor hir, ac nid fel ateb cyflym. Wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, mae'r ALI a chyrrff llywodraethu wedi ystyried yn fanwl fanteision sefydlu ffederasiwn mewn perthynas â'r effaith ar gyflawniadau plant a phobl ifanc. Serch hynny, mae Rheoliadau Ffederasiwn 2014 yn caniatáu i ffederasiwn gael ei ddiddymu.</p>
 <p>Collaboration</p> <p>Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p>Bydd y ffederasiwn yn galluogi Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton i barhau i weithio gyda'i gilydd a chael gweledigaeth a rennir a phwrpas cyffredin o'r hyn sydd angen ei wneud i wella cyrhaeddiad a chyflawni ar bob lefel ar draws y bartneriaeth.</p> <p>Trwy weithio gyda'i gilydd, bydd un ysgol yn darparu cefnogaeth i'r ysgol arall pan fyddant mewn anhawster a gall cryfderau'r ysgol gyfrannu at ddysgu eraill. Gall yr ysgolion drwy weithio gyda'i gilydd helpu i gyflawni amcanion a gwella trwy helpu ei gilydd i ymdrin â phroblemau a rhannu arbenigedd.</p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
 <p>Involvement</p> <p>Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn</p>	<p>Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol yr effeithir arnynt. Bydd rhaglen lawn o ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei chynnal gyda'r rhanddeiliaid canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Staff y ddwy ysgol; • Rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol; • Y disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol; • Undebau staff addysgu a chymorth sy'n cynrychioli athrawon a staff yn y ddwy ysgol; • Aelodau Ward Lleol ar gyfer y ddwy ysgol; • Penaethiaid yr holl ysgolion yn ardaloedd clwstwr Llanwern a Lliswerry; • Gwasanaeth Cyflawniad Addysg De Ddwyrain Cymru; • Estyn. <p>Yn dilyn y cyfnod o ymgynghori ffurfiol, paratwir Adroddiad Ymgynghori, a bydd yn cael ei ddefnyddio gan y cyrrff llywodraethu i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Aelod Cabinet Addysg a Sgiliau.</p>
 <p>Prevention</p> <p>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am gyflwyno addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael arweinwyr effeithiol yn ei ysgolion yn rhan annatod o hyn. Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithio rhwng pob rhan o'r system addysg i wella canlyniadau. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd fwy ffurfiol o ymestyn cydweithredu a hyrwyddo cydberthnasau gwaith agosach, a dyma'r brif fenter ar gyfer cyflawni gwaith partneriaeth ffurfiol ymysg ysgolion i wella perfformiad a chau'r bwlch cyrhaeddiad i ddisgyblion difreintiedig.</p>
 <p>Integration</p> <p>Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyrff eraill</p>	<p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru lewyrchus", "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru o gymunedau cydlynus" ac nid yw'n cael unrhyw effaith andwyol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Yn ogystal, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd o "wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".</p>

6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghyfartal ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Mae'r cynnig yn effeithio'n benodol ar wardiau Alway a Beechwood a disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton, neu sy'n debygol o'u mynychu.

7 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i baramedrau'r drafodaeth am Degwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

Paramedr 1 – Triniaeth gyfartal tra'n cydnabod gwahaniaeth

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd y ddwy ysgol yn parhau i gynnal eu hunaniaeth unigol eu hunain o ran enw, diwylliant ac ethos a byddant yn parhau i reoli eu cyllidebau unigol eu hunain. Golyga'r trefniant sefydlu un corff llywodraethu yn unig i lywodraethu'r ddwy ysgol. Mae'r ddau gorff llywodraethu wedi cydweithio ers mis Medi 2016 ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae un Pennaeth Gweithredol wedi rheoli'r ddwy ysgol. Cafodd y trefniant hwn effaith gadarnhaol ar y ddwy ysgol.

Paramedr 2 – Rhwymedigaethau Cydfuddiannol rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Bydd y cynnig yn cefnogi'r ddwy ysgol i gydweithio drwy broses strwythuredig ffurfiol trwy rannu trefniadau llywodraethu ac un corff llywodraethu, a fydd yn gwneud penderfyniadau er lles yr holl ysgolion, staff a disgyblion o fewn y ffederasiwn hwnnw.

Paramedr 3 – Cyd-ddibyniaeth a dwyochredd o fewn cysylltiadau cymunedol

Drwy ymuno â ffederasiwn ffurfiol, bydd y ddwy ysgol yn parhau i weithio gyda'i gilydd o dan arweinyddiaeth a rennir i ddefnyddio eu cryfderau i wella safonau ar draws y ffederasiwn a, gyda'i gilydd, byddant yn ymdrin â meysydd sydd angen eu gwella.

Paramedr 4 – Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Trwy ffedereiddio o dan un corff llywodraethu, gellir gwella'r hinsawdd o ymddiriedaeth, didwylledd a pharodrwydd i gydweithio sydd eisoes yn bodoli.

8 Gan ystyried yr holl asesiad, beth ellir ei wneud i leihau unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Efallai y bydd rhywfaint o bryder cychwynnol ymysg llywodraethwyr, rhieni a staff tra bod y newid yn cael ei ymgorffori. Fodd bynnag, bu'r ddwy ysgol yn cydweithio â'i gilydd ers mis Medi 2016, gyda pherthynas dda eisoes wedi'i sefydlu.

Bydd y cynnig yn cynnwys cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod pawb yn deall y cysyniad o ffedereiddio a'r hyn y bydd yn ei gyflawni.

9 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Bydd yr ymgynghoriad yn gyfle i randdeiliaid gael gwybod mwy am y cynnig a rhannu eu barn. Yn dilyn y cyfnod o ymgynghori ffurfiol, paratoir Adroddiad Ymgynghori, a bydd yn cael ei ddefnyddio gan y cyrff llywodraethu i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Aelod Cabinet Addysg a Sgiliau. Caiff y FEIA hwn ei ddiweddarau ar y cam penderfynu hwn hefyd.

10 Cynnwys Pobl

Bydd yr ymgynghoriad yn gyfle i randdeiliaid gael gwybod mwy am y cynnig a rhannu eu barn. Yn dilyn y cyfnod o ymgynghori ffurfiol, paratoir Adroddiad Ymgynghori, a bydd yn cael ei ddefnyddio gan y cyrff llywodraethu i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Aelod Cabinet Addysg a Sgiliau. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori ar gael ac yn cael ei gyhoeddi ar wefannau'r Cyngor a'r ddwy ysgol.

11 Crynodeb o Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu cyfle cyfartal i bob disgybl yng Nghasnewydd trwy gadw at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni fydd ffederasiwn y ddwy ysgol gynradd yn cael effaith ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton, gan y byddant ill dwy yn parhau i fod yn ysgolion ar wahân a bydd y cydgorff llywodraethu yn trin y ddwy ysgol yn gyfartal.

Yr Iaith Gymraeg

Ni fydd unrhyw effaith ar ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton ar yr Iaith Gymraeg, gan fod y ddwy ysgol yn rhai cyfrwng Saesneg, bydd y disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu pob agwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, sy'n cynnwys y Cwricwlwm Cymraeg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- **Tymor hir:** pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd: *Dylid ystyried ffederasiwn fel ymrwymiad tymor hir, ac nid fel ateb cyflym. Wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn, mae'r ALL a chyrrff llywodraethu wedi ystyried yn fanwl fanteision sefydlu ffederasiwn mewn perthynas â'r effaith ar gyflawniadau plant a phobl ifanc. Serch hynny, mae Rheoliadau Ffederasiwn 2014 yn caniatáu i ffederasiwn gael ei ddiddymu.*
- **Atal:** Sut y gall gweithredu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu ein helpu i gyflawni ein hamcanion: *Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am gyflwyno addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael arweinwyr effeithiol yn ei ysgolion yn rhan annatod o hyn. Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithio rhwng pob rhan o'r system addysg i wella canlyniadau. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd fwy ffurfiol o ymestyn cydweithredu a hyrwyddo cydberthnasau gwaith agosach, a dyma'r brif fenter ar gyfer cyflawni gwaith partneriaeth ffurfiol ymysg ysgolion i wella perfformiad a chau'r bwlch cyrhaeddiad i ddisgyblion difreintiedig.*
- **Integreiddio:** Ystyried sut y bydd y cynigion yn effeithio ar ein hamcanion llesiant, ein nodau llesiant, amcanion eraill neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill: *Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru lewyrchus", "Cymru fwy cyfartal" a "Cymru o gymunedau cydlynus" ac nid yw'n cael unrhyw effaith andwyol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Yn ogystal, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd o "wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".*
- **Cydweithio:** ystyried sut y gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall neu unrhyw ran arall o'n sefydliad ein helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant: *Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol yr effeithir arnynt. Cynhelir rhaglen lawn o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a pharatoir adroddiad ar ddiwedd hyn. Bydd y ffederasiwn yn galluogi Ysgol Gynradd Eveswell ac Ysgol Gynradd Somerton i barhau i weithio gyda'i gilydd a chael gweledigaeth a rennir a phwrpas cyffredin o'r hyn sydd angen ei wneud i wella cyrhaeddiad a chyflawni ar bob lefel ar draws y bartneriaeth. Trwy weithio gyda'i gilydd, bydd un ysgol yn darparu cefnogaeth i'r ysgol arall pan fyddant mewn anhawster a gall cryfderau'r ysgol gyfrannu at ddysgu eraill. Gall yr ysgolion drwy weithio gyda'i gilydd helpu i gyflawni amcanion a gwella trwy helpu ei gilydd i ymdrin â phroblemau a rhannu arbenigedd.*
- **Cynnwys pobl:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth y Ddinas yr ydym yn ei gwasanaethu: *Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chyrrff llywodraethu'r ddwy*

ysgol yr effeithir arnynt. Cynhelir rhaglen lawn o ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a pharatoir adroddiad ar ddiwedd hyn.